

Polisi Presenoldeb

2020-21



Cyngor Dinas Casnewydd – Gwasanaeth Addysg

Polisi Presenoldeb

Ein holl blant, Ein holl fusnes - mae Presenoldeb yn wirioneddol bwysig!

Gall plant a phobl ifanc nad ydynt yn mynd i'r ysgol ddifaru'r ffaith am weddill eu bywydau. Mae absenoldeb a gwaharddiad o'r ysgol yn gysylltiedig â risg uwch o gyflawniad a chyrhaeddiad addysgol gwael, rhagolygon cyfyngedig o ran swyddi a gweithgarwch troseddol. Ni ddylid tanbriso arwyddocâd presenoldeb mewn ysgol, yn enwedig i'r plant a'r bobl ifanc hynny sy'n dangos arwyddion o anafodlonrwydd neu anhapusrwydd. Mae Awdurdod Lleol Casnewydd o'r farn:

- bod gan blant a phobl ifanc hawl i gael mynediad at addysg sy'n briodol i'w hanghenion unigol
- y dylid cadw cydbwysedd o hawliau a chyfrifoldebau rhwng plant a phobl ifanc, rhieni, ysgolion, gweithwyr proffesiynol eraill a'r gymuned ehangach
- bod asesu, adnabod ac ymyrryd yn gynnar yn allwedd i ddiogelu lles a buddiannau plant a phobl ifanc

bod hybu ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb rhagorol yn gyfrifoldeb i'r ysgol gyfan a'r gymuned ehangach.

Bydd ysgolion Casnewydd yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb da drwy ddefnyddio cwricwlwm priodol sydd wedi'i anelu at oedran, dawn a gallu'r plentyn. Bydd ysgolion yn anelu at greu cymuned ddysgu sy'n elwa ar ymddygiad cadarnhaol, presenoldeb rheolaidd a lles ei disgyblion a'i staff. Bydd presenoldeb ac ymddygiad da yn cael eu cydnabod yn briodol.

Dylai pob plentyn fod yn yr ysgol, ar amser, bob dydd y mae'r ysgol ar agor oni bai bod y rheswm dros yr absenoldeb yn anorfod. Mae dyletswydd gyfreithiol ar ysgolion i gyhoeddi ffigurau presenoldeb ac i hyrwyddo presenoldeb. Yn yr un modd, mae gan rieni ddyletswydd a chyfrifoldeb i sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i hybu a gorfodi presenoldeb.



Cydnabyddir bod pob plentyn yn gyndyn o fynychu'r ysgol weithiau. Mae'n well datrys unrhyw broblemau sy'n codi gyda phresenoldeb rhwng yr ysgol, y rhieni a'r plentyn. Os yw plentyn yn gyndyn o fynychu, mae'n amhriodol cuddio'r absenoldeb hwn neu ildio i bwysau i'w hesgusodi rhag bod yn bresennol. Mae hyn yn rhoi'r argraff i'r rhieni a'r plentyn nad yw presenoldeb yn bwysig, a dim ond gwaethygu'r sefyllfa a wna mewn gwirionedd. Mae caniatáu absenoldeb o'r ysgol heb reswm da yn drosedd gan y riant.

Mae gan ysgolion ddyletswydd yn ôl y gyfraith i atgyfeirio unrhyw absenoldeb dros 10 diwrnod neu fwy os nad ydynt wedi llwyddo i gysylltu â'r riant/plentyn neu os oes ganddynt bryderon cyffredinol am yr absenoldeb i'r Gwasanaeth Lles Addysg.

Mae'n ofynnol i ysgolion gofrestru presenoldeb disgyblion ddwywaith y dydd, ac mae hyn yn dangos a yw'r disgybl yn bresennol, yn cymryd rhan mewn gweithgaredd oddi ar y safle sydd wedi'i gymeradwyo, neu'n absennol. Os yw disgybl o oedran ysgol gorfodol yn absennol, rhaid i'r ysgol ddynodi pob absenoldeb hanner diwrnod o'r ysgol, naill ai fel un wedi'i **awdurdodi** neu **heb ei awdurdodi**.

Dim ond yr ysgol all awdurdodi'r absenoldeb, nid y rhieni.

Bydd angen gwybodaeth am achos yr absenoldeb bob amser, yn ysgrifenedig os yn bosibl.

Absenoldebau awdurdodedig yw boreau neu brynhawniau i ffwrdd o'r ysgol am reswm da fel salwch neu achosion eraill na ellir eu hosgoi (e.e. profedigaeth). Os oes modd, dylid trefnu apwyntiadau meddygol y tu allan i'r diwrnod ysgol, ond os nad yw hyn yn bosibl, gellir cofnodi absenoldebau fel rhai awdurdodedig os darperir prawf o'r apwyntiad. Dylai rhieni fod yn ymwybodol, oni bai bod rheswm meddygol dilys yn cael ei gefnogi gyda thystiolaeth feddygol fel llythyr meddyg teulu, yn nodi na ddylai eich plentyn ddychwelyd i'r ysgol yn dilyn apwyntiadau o'r fath, y bydd absenoldeb eich plentyn yn cael ei gofnodi fel absenoldeb anawdurdodedig. Os bwriedir iddynt gael eu hawdurdodi, bydd absenoldebau mynych o ganlyniad i salwch hefyd yn gofyn am lythyr gan feddyg teulu/ymgyngorydd ac, os yw'n berthnasol, adroddiad.

Pan awdurdodir yr absenoldeb, bydd ysgolion yn defnyddio'r cod priodol i gofnodi'r absenoldeb. Mae'n hanfodol bod cysondeb yn y ffordd y mae ysgolion yn cofnodi absenoldebau fel bod y data a ddarperir i'r Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru yn gywir.



Absenoldebau anawdurdodedig yw'r rhai nad yw'r awdurdod lleol yn eu hystyried yn rhesymol ac nad yw'r ysgol wedi rhoi 'caniatad i fod yn absennol' ar eu cyfer. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwyliau yn ystod amser ysgol
- Rhieni yn cadw plant allan o'r ysgol yn ddiangen, e.e. er mwyn cael cwmni
- Triwantiaeth cyn neu yn ystod y diwrnod ysgol
- Absenoldebau nad ydynt erioed wedi eu hesbonio'n iawn
- Plant sy'n cyrraedd yr ysgol yn rhy hwyr i gael marc
- Absenoldebau cyson sy'n gysylltiedig â salwch heb dystiolaeth feddygol

Nid yw'n briodol i ysgolion awdurdodi absenoldebau ar gyfer siopa, gofalu am blant eraill, penblwyddi, apwyntiadau gwallt ac ati.

Absenoldeb a Esgusodir gan y Rhieni – Gall fod llawer o resymau pam mae rhiant yn dewis cadw ei blentyn i ffwrdd o'r ysgol. Mae'n hanfodol, pan fydd staff ysgol yn teimlo bod patrwm pryderus o ddiffyg presenoldeb yn dod i'r amlwg eu bod yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Lles Addysg i sicrhau y gellir cynnig y lefel briodol o ymyrraeth a chefnogaeth i'r rhiant a'r plentyn er mwyn annog presenoldeb. Y cam cyntaf y dylai ysgol ei gymryd bob amser yw gweld rhiant am y broblem.

Bod yn hwyr - yn enwedig os yw'n gyson, dylid ei drin yn yr un ffordd â phresenoldeb afreolaidd. Gellir erlyn rhieni a hefyd gellir rhoi hysbysiad cosb benodedig (HCB) iddyn nhw os na chaiff mater diffyg prydlondeb parhaus ei ddatrys. Gall bod yn hwyr fod yn yr un mor niweidiol i yrfa addysgol disgybl ag absenoldeb parhaus. Mae'n arwain at arferion gwael iawn na fydd cyflogwyr, er enghraifft, yn eu derbyn.

Gwyliau teuluol yn ystod amser tymor – Mae Rheoliadau Cofrestru Disgyblion (Cymru) 2010 yn rhoi pŵer disgresiwn i ysgolion i ganiatáu deg diwrnod o wyliau ar gyfer gwyliau teuluol blyneddol yn ystod y tymor. Mewn amgylchiadau eithriadol gall ysgol awdurdodi gwyliau o fwy na deng niwrnod.

Nid oes gan rieni'r hawl awtomatig i dynnu eu plentyn/plant o'r ysgol am wyliau, ac yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid iddynt wneud cais am ganiatâd ymlaen llaw. Mae ysgolion yn eglur iawn ynglŷn ag effaith gwyliau yn ystod y tymor ar eu ffigurau perfformiad a'r niwed a wnânt i gynnydd plentyn.

Y gweithiwr cymdeithasol ddylai wneud cais am ganiatâd i fod yn absennol ar ran plant sy'n derbyn gofal, **NID** y Gofalydd Maeth. Os derbynnir cais o'r fath, dylai'r ysgol gyfeirio'r achos hwn ar unwaith at yr Uwch Swyddog Lles Addysg.



Teithiau tramor estynedig - Dylid ond cytuno pan fydd ysgolion wedi rhoi ystyriaeth lawn i ganllawiau Llywodraeth Cymru ac amgylchiadau unigol. Dylid cynghori rhieni am yr effaith y bydd absenoldeb mor hir yn ei chael ar eu plentyn/plant a dylid eu hannog, lle bo'n bosibl, i gymryd eu gwyliau i gyd-fynd â chau'r ysgol. Mae teithiau tramor yr un fath â gwyliau teuluol. I lawer o'r plant dan sylw, mae'n hanfodol iddynt fanteisio i'r eithaf ar eu hamser yn yr ysgol, a pha un a yw am resymau ieithyddol neu fod oedi wedi bod yn eu cyrhaeddiad, mae angen annog rhieni i gynllunio ar gyfer teithiau yn y 13 wythnos sydd ar gael iddynt y tu allan i'r tymor ysgol.

Dylid cytuno ar ddyddiad dychwelyd gyda'r ysgol cyn y daith. Os na fyddwch yn dychwelyd ar y dyddiad y cytunwyd arno, gall eich plentyn(plant) gael ei dynnu oddi ar y gofrestr.

Defodau crefyddol

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch defodau crefyddol fel a ganlyn:

Mae cyfrifoldeb ar rieni i sicrhau bod eu plant o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg amser llawn addas. Dim ond penaethiaid, ac nid rhieni, a all awdurdodi absenoldeb. Rhaid i ysgolion ystyried a yw'r rheswm dros yr absenoldeb yn rhesymol cyn ei awdurdodi.

Yng Nghymru, mae patrwm y flwyddyn ysgol yn ystyried y rhan fwyaf o'r gwyliau a'r dyddiau sanctaidd Cristnogol gorllewinol. Fodd bynnag, mae dyddiau pwysig o ymlyniad crefyddol yng nghalendrau traddodiadau ac enwadau crefyddol eraill yn aml yn digwydd yn ystod y tymor ac yn benodol ar ddiwrnodau ysgol.

Os yw sefydliad crefyddol y rhieni yn nodi'r diwrnod fel gŵyl grefyddol yna dylai'r ysgol awdurdodi'r absenoldeb. Os nad yw'r corff crefyddol wedi neilltuo'r diwrnod nid yw'n ofynnol i'r ysgol gymeradwyo na chaniatáu cyfnod o absenoldeb.

Gall ysgolion gael copi o ddyddiadau defodau crefyddol o wefan Llywodraeth Cymru bob blwyddyn academiaidd.

Dylid hysbysu'r rhieni y bydd enw eu plentyn yn cael ei dynnu oddi ar gofrestr yr ysgol os nad yw wedi dychwelyd i'r ysgol ar y diwrnod dychwelyd disgwyliedig. Yn gyfreithiol, gellir tynnu plentyn oddi ar gofrestr ysgol os nad yw wedi mynychu am 4 wythnos neu am 10 diwrnod ar ôl peidio â dychwelyd o wyliau (oherwydd gweithredu gan rieni). O dan yr amgylchiadau hyn, byddai angen i'r rhieni wneud cais i'w plentyn gael ei ail-dderbyn ar ôl dychwelyd i Gymru, ac mae'n bosibl na fyddent yn cael gwarant o le yn eu dewis ysgol, gan y byddai pob lle o bosibl wedi'i lenwi. Felly byddai'n rhaid newid ysgol.

Mae gan bawb (Awdurdod Lleol, Y Corff Llywodraethol, Staff Yr Ysgol, Rhieni, Plant a Phobl Ifanc) gyfrifoldeb i hybu presenoldeb yr holl blant a phobl ifanc o fewn Dinas Casnewydd. Gyda'n gilydd byddwn yn Pwysleisio Presenoldeb!

Awdur: Andrew Powles

Dyddiad: Adolygwyd gan: Hayley Thomas Gorffennaf 2020

Dyddiad Adolygu: Gorffennaf 2021

Fersiwn: 1.6

